

# PIGION

Cyfarfod Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru  
ym Mhrifysgol Abertawe, Campws y Bae,  
ar 11-12 Medi 2019

## Cronfa'r Canmlwyddiant Centenary Fund

cymorth  
cristnogol



christian  
aid

I gyfrannu £5 tecstiwch CENTENARY i 70660

Yr Archesgob John yn lansio  
Cronfa Apêl Canmlwyddiant  
gan dargedu  
elusennau gartref  
a thramor.

Gweler tudalen 3.

100



Tudalen 1  
Anerchiad y Llywydd

Tudalen 3  
Cronfa Apêl y Canmlwyddiant

Tudalen 5  
Gwefan Newydd  
Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

Tudalen 6  
Y Cynllun Cadeirlannau  
Cymdeithas y Gweddwon,  
Plant Amddifad a Dibynyddion  
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Tudalen 7  
Digwyddiadau Bywyd

Tudalen 9  
Cronfa Efengylu: Stryd Gobaith

Tudalen 10  
Gweinidogion Arloesol

Tudalen 11  
Aelodaeth a Chyllid  
Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd

Tudalen 12  
Adolygiad o broses y Coleg Etholiadol

Tudalen 13  
Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl

Tudalen 15  
Cyllid

Tudalen 16  
Hawl i Holi

Tudalen 17  
Addoli a Ffarwelio

Cyhoeddwyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ar ran Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, Medi 2019.  
Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Rheolwr Cyhoeddiadau:  
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru,  
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT  
Mae pob llun yn hawffraining i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

## “Herio'r status quo a chofleidio newid”

**Mae Archesgob Cymru wedi galw o'r newydd yn ei Anerchiad Llywyddol ar aelodau'r Eglwys i herio'r status quo ac i gefnogi cynlluniau newydd sy'n anelu am dwf.**

Ni ddylai'r Eglwys fod yn ddall na byddar i naill ai ei heriau na'i chyfleoedd, dywedodd.

Roedd yn cydnabod bod gwrthwynebiad i ymdrechion i fynd i'r afael â heriau ond rhybuddiodd ei bod yn hanfodol i'r Eglwys “adfer” ei gweledigaeth.

Dywedodd yr Archesgob John, “Ar adeg pan mae'r Eglwys, diolch i Dduw, mewn rhai manau'n deffro i'r heriau dwys y mae'n eu hwynebu, mae rhai unigolion ar y tu mewn yn parhau i ddiystyru'n fyrbwyll, ac i alw'n ffyliaid, y rhai sy'n tynnu sylw at yr heriau hyn ac yn eu mynegi, ac yn awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r heriau hynny.

“Mae'r heriau a'r herwyr, y naill a'r llall, yn haeddu gwell, llawer gwell, na'r fath yna o ymateb naif, digroeso ac, weithiau, cas. Rhaid eu cymryd o ddirif, ac mewn rhai manau o leiaf, maent yn cael eu cymryd fwyfwy o ddirif. Fodd bynnag, a gwaetha'r modd, dydy hynny ddim yn wir ymhob man.

“Felly mae'n bwysig, yn hanfodol, fy mod unwaith eto'n annog y Bwrdd Llywodraethol a, thrwoch chi, yn annog ein Talaith, i gydnabod ein heriau, ac i gadarnhau'r unigolion a'r grwpiau hynny sydd, trwy ofyn cwestiynau anghysurus a gwneud arsylwadau anghysurus, yn mynnu ein bod yn rhoi sylw (hynny yw, ein bod yn gwrando, nid dim ond clywed) – a'n bod yn cynllunio, ein bod yn gweddio a'n bod yn gweithredu i barhau i adfer ein gweledigaeth ar gyfer ein bywyd fel eglwys. Rwyf wedi siarad yn gyson yn y modd hwn ers dod yn Archesgob, fel y gwnaeth eraill, ac nid wyf am ymddiheuro am wneud hynny eto. Ni allwn feiddio mentro bod naill ai'n ddall nac yn fyddar i realaeth yr hyn a wynebwn nag i'r rhoddion a'r cyfleoedd sy'n dal i fod gennym i fynd i'r afael â'r realaeth honno.”



Atgoffodd yr Archesgob yr aelodau fod gan broffwydi Crist hanes o gael eu gwawdio a'u herlid am eu syniadau radical.

“O'r cychwyn, roedd gan yr Eglwys Gynnar y gallu i gyhoeddi yn ddi-ofn, yn ffyddlon ac yn llwyr her yr Efengyl ac i fyw yr her honno, ac i fod yn dystion i gyfiawnder Duw a dibenion Duw ar gyfer y byd, mewn gair a gweithred.

O ganlyniad, cafodd ei herlid, ei gwawdio a'i phardduo, gyda'i harweinwyr arloesol yn cael eu diystyru fel ffyliaid, ac weithiau'n cael eu lladd, gan y rheini a ystyriai neges y Ffordd Newydd hon fel perygl yn ogystal â bygythiad.

“Mynegir safbwyntiau tebyg mewn rhai eglwysi o bryd i'w gilydd hyd heddiw, un ai'n agored neu'n llai amlwg, gan unigolion neu grwpiau sydd, o ganlyniad i'r bygythiad i'r status quo cyfarwydd y maen nhw'n gyffyrddus ag ef, yn dychanu rhai o'r cynlluniau newydd sy'n dechrau cael eu mynegi ac, mewn rhai manau, yn eu gweld fel syniadau ffyliaid. Mae mentrau llawn dychymyg, gobaith a ffydd, megis Gweinidogaeth Arloesol, Ardaloedd Gweinidogaeth, Gweinidogaeth Tîm, Gweinidogaeth Leyg, Cronfeydd Efengylu ac eraill yn cael eu diystyru'n rhy gyflym o lawer gan rai fel cynlluniau ffôl, gyda'r unigolion hynny sy'n eu cynnig fel ffyrdd newydd o weithio, ffyrdd newydd o fod yn eglwys, yn cael eu gwawdio fel ffyliaid.”

Dywedodd yr Archesgob John y caiff lleisiau yn erbyn newid eu canfod yn aml mewn eglwysi sydd ar drai. Rhybuddiodd y gallai'r canlyniad arwain at “alltudiaeth ysbrydol a thranc terfynol” yr eglwysi hyn.



“Pan ganfyddir amgylchiadau o'r fath, nid yw'n rhy radical awgrymu, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, bod unigolion, cynulleidfaoedd a chymdeithasau wedi disgyn i afael a allai fod yn afael angheuol; gafael sydd wedi achosi, efallai'n ddiarwybod, i bererinion a arweinir gan yr Ysbryd drawsnewid i fod yn sefydliad dynol cyffredin arall – clwb aelodaeth, clwb i rai o'r un anian yn unig.”

Ni ddylid condemnio nac amddiffyn y fath gymdeithasau ond dylid eu caru gan gynnig iddynt weledigaeth newydd o adferiad gyda chymorth a chefnogaeth.

Cyfeiriodd yr Archesgob at y cyfleoedd efengylu a gynigir trwy ddigwyddiadau bywyd, megis bedyddiadau, priodasau, angladdau ac achlysuron lleol a chenedlaethol, yn ogystal â mathau newydd o weinidogaeth, megis gweinidogaeth tîm, arloeswyr a rolau mwy eang ar gyfer llyegion.

Galwodd hefyd am adnoddau priodol ar gyfer syniadau ffres ac arloesol. Nid “rheolwyr buddsoddiadau” yn unig, dywedodd,

oedd trysoryddion yr Eglwys.

“Mae'n bwysig eu bod cael eu hannog i feddwl o'r newydd, a'u bod yn fwy agored i weithredu gyda bwriad strategol seiliedig ar yr Efengyl, i ymddwyn fel stiwardiaid, i reoli ac i gyllidebu adnoddau yn y fath fodd fel eu bod yn annog, cynnal, datblygu ac yn lledaenu'r Efengyl ymhellach, ac nid dim ond er mwyn gwarchod neu ddiogelu'r status quo neu gadw'r sioe i fynd.”

Gorffennodd yr Archesgob ei anerchiad trwy alw ar y rhai a ddiystyrwyd fel ffyliaid i herio'r status quo i fod yn “ffyliaid i Grist”.

Dywedodd, “Rwyf am annog cydnabyddiaeth ehangach o'r angen yn ein heglwys i gofleidio agenda newid gall, strwythuredig. Rwyf am wahodd ac annog y Corff Llywodraethol, a'r Eglwys yng Nghymru, i werthfawrogi'r hyn sy'n dda yn ein gorffennol, yn ein hetifeddiaeth o ffydd a bywyd ac, ar yr un pryd, i annog, i groesawu ac i gadarnhau syniadau newydd, camau newydd, i lawenhau yn ein manteision, i fachu ar ein cyfleoedd ac i fentro'n ofalus.”

I lawrlwytho testun Anerchiad y Llywydd, ewch i:  
[eglwysyngnghymru.org.uk/newyddion](http://eglwysyngnghymru.org.uk/newyddion)

# Cronfa'r Canmlwyddiant Centenary Fund

cymorth cristnogol



christian aid

# 100

## APÊL CANMLWYDDIANT YN TARGEDU ELUSENNAU GARTREF A THRAMOR

**Pobl ddigartref a dioddefwyr gwrthdaro yw ffocws apêl bwysig a lansiwyd yn ystod y cyfarfod i nodi canmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru eleni.**

Bydd dwy elusen yn elwa ar Apêl y Canmlwyddiant, a'i nod yw codi o leiaf £100,000 dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yr arian yn mynd tuag at ddau brosiect penodol - un gartref, yn cael ei redeg gan Housing Justice Cymru, i helpu pobl ddigartref, a'r llall i gefnogi heddwch yn Ne Swdan trwy Cymorth Cristnogol.

Galwodd Archesgob Cymru, John Davies, ar bobl i fod mor hael ag oedden nhw gan mlynedd yn ôl pan lansiwyd apêl bwysig arall. Meddai, "Yn

ôl ym 1920 fe lansiwyd apêl i sefydlu'r Eglwys yng Nghymru, a diolch i haelioni plwyfolion pob eglwys yn y wlad, mae'r Eglwys wedi cael ei chynnal am gan mlynedd. Ni allaf feddwl am well ffordd o ddathlu'n pen-blwydd na

lansio apêl bwysig arall i godi arian - nid i ni'n hunain ond i'r rhai sydd mewn angen, dramor yn ogystal â gartref. Rwy'n hyderus y bydd pobl yn ymateb gyda'r un haelioni a brwdfrydedd. Rwyf hefyd yn gofyn i chi weddio dros y prosiectau hyn, dros y rhai sy'n eu rhedeg, dros y bobl fydd yn elwa, ac am yr egni a'r ymroddiad i'w defnyddio i adeiladu Teyrnas Dduw - teyrnas o gyfiawnder a heddwch, undod a thosturi."

Fodd bynnag, mae'n llawer haws cyfrannu i Apêl y Canmlwyddiant nag oedd hi gan mlynedd yn ôl. Am y tro cyntaf, mae'r Eglwys wedi sefydlu safle Instagiv, a ddaeth i fod yn y cyfarfod, fel y gall pobl roi swm penodol trwy anfon neges destun o'u ffôn, yn ogystal â rhoi trwy'r dulliau arferol.

Meddai'r Canon Carol Wardman, Cynghorwr yr Esgobion ar faterion Eglwysig a Chymdeithasol,

"Rydyn ni'n ymrwmo i godi £100,000 ond os bydd



pob un yn ein heglwysi yn rhoi dim ond ychydig bunnoedd, byddwn yn fuan wedi rhagori ar y cyfanswm hwnnw. Fodd bynnag, nid codi arian yw ein hunig amcan - rydyn

ni hefyd am ddyfnhau ein dealltwriaeth a'n hundod gyda phobl sy'n profi caledi a thlodi, a meithrin ein perthynas gyda mudiadau sy'n eu helpu."

Bydd yr holl arian a gesglir yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Cymorth Cristnogol a Housing Justice Cymru. Bydd yr elusennau'n rhoi adroddiadau ac adborth rheolaidd ar hynt a helynt eu prosiectau gan ddangos sut mae'r arian yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.

Meddai'r Canon Carol, "Fe ddewiswn ni Dde Swdan am nifer o resymau. Fel aelod o'r Cymuned Anglicanaidd, mae gan ein Heglwys ni lawer o gysylltiadau â thaleithiau eraill eisoes, ond nid oedd gennym gysylltiad hyd yma â De Swdan. Mae yno Eglwys Anglicanaidd weithgar iawn ac mae'r angen yno'n aruthrol. Gyda llaw, roedd esgob cyntaf un Swdan, Llewellyn Gwynne, yn hanu o Abertawe, a daeth yr esgobaeth i fod ym 1920 - yn yr un flwyddyn â'r Eglwys yng Nghymru. Roeddem ni am weithio trwy fudiad oedd â gwybodaeth arbenigol yn y maes a Cymorth Cristnogol oedd y partner amlwg.

"Yn achos yr elusen gartref, digartrefedd oedd ar frig ein rhestr. Mae gennym berthynas gyda Housing Justice Cymru ers amser maith, yn arbennig trwy ei fraich Ffydd mewn Tai Fforddiadwy.

"Rydyn ni wedi gosod targed o £20,000 y flwyddyn - swm gweddol fach am nad oedden ni eisiau cymryd lle'r codi arian sydd eisoes ar y gweill. Fodd bynnag, rydyn ni'n disgwyl rhagori ar y swm bron ar unwaith."



Llun: y Canon Carol Wardman, Mari McNeill (Cymorth Cristnogol), Sharon Lee (Housing Justice Cymru) a'r Archesgob John

## I roi rhodd o £5, tecstiwch CENTENARY i 70660

Gallwch roi rhodd trwy siec hefyd, yn daladwy i RBCIW\*, gan nodi arni mai ar gyfer yr Apêl Canmlwyddiant mae hi.

**cymorth  
cristnogol**

Mae prosiect Cymorth Cristnogol yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfiawnder, Heddwch a Chymod Eglwys Esgobol De

**Swdan – gwlad sydd wedi'i hollti gan drais ac un o'r tlotaf yn y byd.**

Meddai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, "Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi bod yn un o gefnogwyr allweddol Cymorth Cristnogol ers y cychwyn, 70 mlynedd yn ôl. Mater o lawenydd i ni, felly, oedd ymrwymiad diweddaraf yr Eglwys i fod yn bartner i ni yn y dasg o weithio am urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i bobl sy'n byw mewn tloti eithafol yn Ne Swdan, lle mae ymladd a gwrthdaro'n dwysáu'r tloti a'r argyfwng dynol. Bydd yr arian gaiff ei gasglu yn mynd tuag at gefnogi'r rheiny sy'n ymwneud â gweithgareddau hanfodol i sicrhau heddwch yn Ne Swdan – gweithgareddau fel lliniaru trawma, eiriolaeth, gweithdai a gwynlosau gweddi am heddwch, a hyfforddiant i arweinwyr cymunedol. Trwy haelioni aelodau'r eglwysi, bydd yr Eglwys yng Nghymru'n helpu cymunedau i ymateb i'r heriau real o adeiladu heddwch gyda dewrder a gobraith."



Menyw yn gwneud te o flaen ei lloches dros dro mewn gwerysll ar gyfer mwy na 12,000 o bobl sydd wedi eu dadleoli'n fewnol, ar dir Eglwys Gadeiriol Gatholig y Santes Fair yn Wau, De Swdan. Cafodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd yn y fan yma eu dadleoli ym mis Mehefin 2016, pan gafwyd gwrthdaro arfog aruthrol yn Wau. Llun gan Cymorth Cristnogol – Paul Jeffrey



Bydd Housing Justice Cymru'n ariannu'r llochesi nos i bobl ddigartref ar draws Cymru sy'n cael eu harwain gan eglwysi. Bydd hefyd yn darparu hyfforddiant i glerigion ac i aelodau'r eglwysi, gan greu 'Eiriolwyr Tai' ym mhob esgobaeth a fydd yn gallu cynnig help ymarferol ac ymateb gwybodus i ddigartrefedd.

Meddai Sharon Lee, cyfarwyddwr Housing Justice Cymru, "Fel elusen Gristnogol, mae'n fraint cael gweithio gyda'r Eglwys yng Nghymru ledled Cymru. Bydd yr apêl hon yn gwneud gwahaniaeth mawr ac yn newid bywydau. Mae'n golygu y byddwn yn gallu cefnogi eglwysi i ddarparu lletygarwch a thosturi i bobl a fyddai fel arall yn cysgu ar ein strydoedd yn ystod y gaeaf. Bydd hefyd yn gymorth i ni rymuso a chefnogi'r nifer fawr o aelodau'r Eglwys yng Nghymru sydd eisiau helpu pobl yn eu cymuned."



Gwelyau'n barod ar gyfer pobl ddigartref yn Lloches Nos Wrecsam. Cafodd y lloches ei sefydlu gan HJC a chaiff ei rhedeg gan eglwysi lleol.

\*Anfonwch eich sieciau at:

Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru,  
4ydd Llawr, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT

# Cipolwg ar ein gwefan newydd

## Cafodd gwefan ddwyieithog newydd yr Eglwys yng Nghymru groeso twymgalon yn dilyn cyflwyniad gan Mike Wakeman, rheolwr cyfathrebu digidol.

Ffarwél i'r cynllun cloff a'r nodwedd chwilio sâl. Bellach, mae'r wefan yn edrych yn fodern a glân ac mae'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr yn well. Mae'r wefan ar ei newydd wedd wrthi'n cael ei phrofi'n derfynol, yn barod ar gyfer ei lansio ddiwedd mis Hydref.

Tynnodd Mr Wakeman sylw at nodweddion newydd, fel 'Chwilio am Eglwys' a 'Chwilio am Ysgol'. Bydd hyn yn hwyluso pobl i gysylltu â'u heglwys neu eu hysgol eglwysig leol. Yn syml, dylai'r defnyddwyr deipio cod post neu dref i ddod o hyd i fanylion cyswllt perthnasol ac amseroedd gwasanaeth. Bydd nodwedd geiriadur newydd, yn esbonio iaith draddodiadol yr eglwys, yn ysgogi profiad mwy croesawus i'r rhai sy'n newydd i'r ffydd Gristnogol.

Yn ôl Mr Wakeman, "Am y tro cyntaf, rydyn ni wedi diffinio ar gyfer pwy mae ein gwefan a beth mae ein cynulleidfaoedd ei eisiau gennym. Bydd mwy o bwyslais ar ddigwyddiadau bywyd – bedyddiadau, priodasau, angladdau – ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r eglwys, ar wahân i'r digwyddiadau yma. Hefyd, fe fydd yna adran lle gall clerigion ddod o hyd i wybodaeth litwrgaidd.



"Ar y cyfan, bydd yn fwy trawiadol yr olwg ac yn haws ei defnyddio."

Gofynnodd Annabelle Elletson (Abertawe ac Aberhonddu) a fydd ardaloedd gweinidogaeth a phlwyfi sydd eisoes â'u gwefannau eu hunain yn cael plattfformau newydd.



Mynegodd Andrew Sims (Llandaf) bryder ynghylch strategaeth cyfryngau cymdeithasol yr Eglwys yng Nghymru, a gofynnodd am gael diweddariad trylwyr. Gofynnodd Gregor Lachlann-Waddell (Llanelwy) a'r Parch Phil Bettinson (Llanelwy) am eglurhad ynghylch buddsoddi mewn technoleg a'r strategaeth ddigidol yn y dyfodol.

Ymatebodd Mr Wakeman trwy ddweud y bydd y nodwedd 'Chwilio am Eglwys' yn cysylltu â gwefannau sydd gan eglwysi'n barod. Cadarnhaodd y bydd eglwysi, sydd â'u gwefannau'n cael eu lletya ar hyn o bryd ar wefan bresennol yr Eglwys yng Nghymru, yn cael eu cynnal am 12 mis. Bydd y tîm digidol yn gweithio gyda phob eglwys i ddod o hyd i ateb tymor hwy.

Fel rhan o'r gwaith o ailgynllunio'r wefan, cafwyd proses rheoli cynnwys wedi ei diffinio'n gliriach. Caiff yr holl gynnwys ei adolygu, a dim ond deunydd perthnasol a chyfoes fydd yn cael ei drosglwyddo i'r wefan newydd. Cadarnhaodd Mr Wakeman hefyd fod y polisi cyfryngau cymdeithasol yn cael ei adolygu, ac y bydd y strategaeth ddigidol yn cael ei rhannu gyda'r Corff Llywodraethol.

## Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

### 'Agorwch eich drysau i ddathlu ein canmlwyddiant'

#### Cafodd dathliad canmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru y flwyddyn nesaf sylw gan Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog, Lis Perkins, pan gyflwynodd ei adroddiad.

Ffocws y flwyddyn oedd gwasanaeth canmlwyddiant i'w gynnal ym mhob un o'r chwe chadeirlan ar 7 Mehefin am 2pm. Roedd ffilm cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr ymgyrch hefyd ar y gweill, yn ogystal â llyfrynau efengylu a llyfr yn myfyrio ar y canmlwyddiant.

Anogodd Mrs Perkins yr aelodau i roi digwyddiadau'r canmlwyddiant yn agendau eu plwyfi.

"Ein cryfder yw bod gennym ganolfan ym mhob cymuned," meddai. "Rydym am i bob eglwys agor ei

drysau i ddathlu'r canmlwyddiant ac i wneud pethau anhygoel. Mae'r cloc yn tician – nawr yw'r amser i ddechrau cynllunio!"

Tynnwyd sylw at eitemau eraill yn cynnwys penderfyniad yr Esgobion i fabwysiadu diffiniad Cyngrhair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust (IHRA) o wrth-semitiaeth a chyflwyniadau gan esgobaethau ar straeon llwyddiannus a oedd, meddai Mrs Perkins, yn ddefnyddiol iawn ac y bydden nhw'n cael eu rhannu gydag aelodau yn y dyfodol.

#### Cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad gan yr aelodau.



# 2020

# Pasio Bil i ddiwygio'r Cynllun Cadeirlannau

Wrth basio'r Bil yn Ganon, cymeradwyodd y Corff Llywodraethol y dylid cynnwys yng nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru Gynllun Cadeirlannau generig newydd i ddisodli'r holl wahanol gynlluniau cadeirlannau yn y Cyfansoddiad. Mae hyn yn galluogi pob Cadeirlan i adolygu eu llywodraethu ac i fabwysiadu trefniadau newydd ar yr amod bod rhai gofynion craidd yn cael eu bodloni.

Nododd y Pwyllgor Dethol, sy'n edrych ar y testun ac yn gwneud argymhellion, na dderbyniwyd unrhyw welliannau, ond er mwyn adlewyrchu penderfyniad gan y Corff Llywodraethol ym mis Mai, yn ystod cwrs y Bil wrth gymeradwyo Cyfansoddiad Cadeirlan Llandaf, ychwanegodd gymal i'r Bil yn datgan:

"Ni ellir gwneud unrhyw newid i'r cyfansoddiad hwn sy'n groes i unrhyw ddarpariaeth yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru."

Mae hyn yn nodi, y tu hwnt i bob amheuaeth, pe bai unrhyw Gadeirlan yn gwneud gwelliant a fyddai'n groes i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, y byddai'n gweithredu'n groes i'w Chyfansoddiad ei hun.

**Yn y cyfarfod, pleidleisiwyd o blaid y Bil heb ystyriaeth na dadl bellach a chafodd ei gymeradwyo.**



Llun trwy garedigrwydd Angela Hewitt

# Mab gweddw yn gadael etifeddiaeth

Pan fu farw'r Parch John Morgan Richards ym 1951, derbyniodd ei weddw gymorth ariannol oddi wrth Gymdeithas y Gweddwon, Plant Amddifad a Dibynyddion. I gydnabod y cymorth hwnnw, gadawodd ei fab John Richards etifeddiaeth o fwy na £8,000 i'r Gymdeithas pan fu farw'r llynedd.

"Mae'n galonogol clywed am y gwerthfawrogiad parhaus o effaith Cymdeithas y Gweddwon, Plant Amddifad a Dibynyddion (WODS) ar fywydau buddiolwyr a'u teuluoedd," meddai'r Archddiacon Andy Grimwood, un o'r ymddiriedolwyr, wrth iddo gyflwyno adroddiad WODS ar gyfer 2018.

Dosbarthwyd cyfanswm o ryw £96,000 o grantiau ar draws y Dalaith y llynedd i'r rhai â'r angen ariannol mwyaf.

"Mae'r derbynyddion yn hynod o ddiolchgar, gan ei fod yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w sefyllfa ariannol ac yn gwneud bywyd ychydig bach yn haws," meddai'r Archddiacon Andy. Diolchodd i bob un o Gymdeithasau Esgobaethol y WODS am eu gwaith bugeiliol gan ddweud, "Mae nifer ohonynt yn ymweld â'r derbynyddion grant yn rheolaidd, a gwerthfawrogir hyn yn fawr gan y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain."

- Os ydych yn teimlo y gallech helpu mewn rhyw ffordd, naill ai'n ariannol (trwy wneud rhodd flynyddol) neu'n fugeiliol, yna cysylltwch â Louise Davies i gael rhagor o fanylion: [ledavies@churchinwales.org.uk](mailto:ledavies@churchinwales.org.uk) neu ffoniwch 029 20 348228



## Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant:

# cysylltiad â'r Eglwys yn "hanfodol"

**Mae'r cysylltiad hirsefydlog rhwng yr Eglwys yng Nghymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn parhau i ffynnu, yn ôl adroddiad blynyddol y brifysgol i'r Corff Llywodraethol.**

Yn ei gyflwyniad, dywedodd yr Is-ganghellor, yr Athro Medwin Hughes, fod cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd y brifysgol, wedi'u cydweddu'n agos â Gweledigaeth 2020 yr Eglwys, sef i fyw cenhadaeth weddnewidiol cariad Duw at Gymru o fewn cryfderau'r traddodiad Anglicanaidd, gan ymateb i anghenion cymdeithas gyfoes.

Wrth gyflwyno'i adroddiad, fe aeth y Dirprwy Is-ganghellor Cysylltiol Gwilym Dyfri Jones ati i dynnu sylw at y gwaith a wneir mewn partneriaeth ag Athrofa Padarn Sant yn ystod "un o'r blynyddoedd mwyaf heriol i'r Sector Addysg Uwch". Roedd hyn yn cynnwys:

- provision of research opportunities for doctoral students

Darparu cyfleoedd ymchwil i fyfyrwyr doethuriaeth ym maes iechyd meddwl a llesiant yng nghyd-destun cymunedau ffydd Gristnogol;



- ysgoloriaeth ymchwil PhD wedi'i hariannu'n llawn ym maes ffydd Gristnogol ac effaith gymdeithasol yn y De-ddwyrain.

Dywedodd mai nod y ddau brosiect yw "cyfoethogi myfyrdod Cristnogol ar fater lles meddyliol a rhoi i arweinwyr eglwysig ganllawiau a fydd yn cynorthwyo arferion bugeiliol cyfrifol."

Dywedodd yr Athro Jones ei bod "yn ffrain" i'r coleg ddyfarnu doethuriaeth anrhydeddus (Doethur mewn Diwinyddiaeth) i'r Archesgob John Davies yn ystod y flwyddyn i gydnabod ei wasanaeth i'r Eglwys yng Nghymru a'i arweinyddiaeth ar draws cymunedau ffydd.

Gorffennodd drwy ddweud, "Rydym yn hyderus y gall y brifysgol oresgyn heriau sy'n ei hwynebu ar hyn o bryd a pharhau i drawsnewid bywydau pobl o ystod o wahanol gefndiroedd. Mae ein partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru yn yr ymdrech hon yn hanfodol."

**Derbyniwyd y cynnig i dderbyn Adroddiad Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn unfrydol.**

# DIGWYDDIADAU BYWYD

Cychwynnodd cyfres o bedwar cynnig a chyflwyniad ar thema Cenhadaeth ac Efengylu gyda'r pwnc Digwyddiadau Bywyd, sydd hefyd yn cael eu galw'n Wasanaethau Achlysurol

**Mae'r Parchedig Ganon Dr Sandra Millar, Pennaeth Digwyddiadau Bywyd i Gyngor yr Archesgob (Eglwys Loegr), wedi gwneud ymchwil helaeth i'r cydweithio allweddol rhwng yr Eglwys a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu, yn arbennig yn achos bedyddiadau, priodasau ac angladdau.**



Y canlyniad oedd sefydlu menter gyda'r nod o ddarparu adnoddau i eglwysi lleol i gysylltu'n effeithiol â phobl ar adegau allweddol o'u bywydau, menter y mae'r Eglwys yng Nghymru'n bwriadu ei mabwysiadu.

Wrth gyflwyno'i hymchwil, dywedodd Dr Millar fod gan y fenter dri nod:

- Sut ydyn ni'n denu pobl i'r eglwys ar yr achlysuron hyn?
- Sut ydyn ni'n meithrin dealltwriaeth gyda phobl anghyfarwydd â phwy ydyn ni a beth ydyn ni'n wneud?
- Sut ydyn ni'n eu meithrin ar ôl y digwyddiad?

Disgrifiodd Dr Millar ddwy ffurf ar gysylltiad - cynnes ac eang. Cysylltiadau 'cynnes' yw'r sgysiaid rydyn ni'n eu cael gyda'r bobl sy'n ganolog i'r digwyddiad: y fam a'r tad, y briodferch a'r priodfab, y rhai sy'n galaru o golli rhywun annwyl. Yn ôl ffigyrau 2017 yng Nghymru, mae hyn yn cynrychioli 56,000 o sgysiaid mewn 2,478 o briodasau, 6,096 o angladdau a 5,487 o fedyddiadau. "Mae hynny'n gyfle cyffrous," meddai.

Mae'r cysylltiadau 'eang' yn rhai gyda'r gwesteion yn y digwyddiadau

hyn, cyfanswm o ryw 863,000 bob blwyddyn.

"Cymharwch y nifer yna â nifer yr aelodau newydd adeg yr Adfent a'r Nadolig," meddai. "Dychmygwch pe baem ni'n rhoi'r un egni i gysylltu â phobl mewn angladdau ag ydyn ni mewn gwasanaeth carolau!"

"Efallai mai dyna'r unig eiliadau maen nhw'n dod i gyffwrdd â stori Duw. Maen nhw i gyd ar siwrne. Dydyn ni ddim yn gwybod ei storïau."

Dywedodd Dr Millar fod angen i'r eglwysi fod yn fwy hyderus ynddynt eu hunain ac yn fwy dewr yn eu hefengylu. "Mae pobl o ddifri ynglŷn â'r digwyddiadau hyn. Maen nhw wedi'n dewis ni. Maen nhw'n edrych am brofiadau personol a chofiadwy; maen nhw am deimlo eu bod yn rhan o'r hyn sy'n mynd ymlaen. Maen nhw'n gweld angen am yr eglwys ac yn ei gwerthfawrogi, ac mae disgwyl i ni siarad am Dduw."

Ychwanegodd, "Stopiwch ymddiheuro am wasanaethau 'gwael' - byddwch yn hyderus yn yr hyn rydyn ni'n ei gynnig!"

Gynt, roedd creu perthynas - y 'stwyf meddal' - yn ganolog i'r hyn roeddem ni'n wneud. "Gan amlaf, y rheswm nad yw pobl yn hoffi gwasanaeth yw nad oes neb wedi dweud 'helo' wrthyn nhw - doedd dim profiad o berthyn. Mae angen yr hyder i ddilyn i fyny, oherwydd mai dyna'r bont o Genhadu i Wneud Disgyblion."

Gallai dilyn i fyny fod yn estyn

gwahoddiad i wasanaethau eraill, meddai Dr Millar. Gallai'r bobl sy'n dod i fedyddiadau gael eu gwahodd i Sul y Mamau-bedydd, er enghraifft.

"Dyw pobl sy'n byw bywydau prysur ddim eisiau ymweliadau bugeiliol ond maen nhw eisiau clywed oddi wrthy ch chi eto. Y rheswm cyntaf mae pobl yn ei roi am beidio â mynd yn ôl i'r eglwys ar ôl digwyddiad allweddol yw nad oes neb wedi gofyn iddyn nhw. Digwyddiadau bywyd yw'r achlysuron lle'r ydyn ni'n cyffwrdd bywydau pobl y tu allan i'r eglwys ac yn ymwneud â nhw lle maen nhw."

Roedd y dull hwn yn dod â mwy o bobl i'r eglwys, meddai Dr Millar.

"Mae dwy ran o dair o eglwysi (sydd wedi mabwysiadu'r technegau hyn) yn dweud bod cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n ymwneud â'r Eglwys; 93% yn dweud bod gwell dealltwriaeth o Fedydd fel cychwyn siwrne."


Dywedodd Dr Millar y byddai'r prosiect, mewn partneriaeth ag Athrofa Padarn Sant, yn darparu adnoddau o ansawdd da, wedi'u teilwra i'r cyd-destun Cymreig, ac y byddai hyfforddiant ar eu defnyddio. Byddai'r rhain yn cynnwys deunydd print a chymorth ar-lein ac yn datblygu ymgyrchoedd, fel Just Ask.

"Mae'r adnoddau wedi'u cynllunio i feithrin hyder pobl i ymwneud â chymunedau. Mae prosesau'n bwysig, ond os mai dim ond hynny wnawn ni, fydd pobl ddim yn meithrin perthynas a ddim yn dod yn ôl. Felly mae angen i ni ddechrau drwy feithrin perthynas a dilyn hynny gyda phrosesau da."

Yn y drafodaeth a ddilynodd, dywedodd y Parchedig Ddeon Roberts (Mynwy) ei fod "wedi'i danio



ac yn barod i gychwyn”.



“Rwy’n teimlo nad yw fy rhwyd bysgota i’n ddigon mawr; bod y bobl yn arllwys allan a finne’n methu â’u dal,” meddai.

“Felly rwy’n awyddus i gael ffyrdd i wella’r dilyn i fyny, a dwi angen cefnogaeth yr esgobaeth. Pan rydyn ni’n meddwl am efengylu, dyma’r ffordd y gallwn ni ddod â bywyd newydd i’r eglwys. Dwi ddim am i ni fynd i ffwrdd ac anghofio amdano – byddai’n ardderchog ei gael fel rhan o’n diwylliant.”

Dyweddodd Paul Murray (Abertawe ac Aberhonddu)

fod y berthynas rhwng trefnwyr angladdau a gweinidogion yn hanfodol.

“Ond mae wedi

torri i lawr,” meddai, ac mae’n anodd iddynt weithio gyda’i gilydd. Yn ôl Mr Murray, ei hun yn drefnydd angladdau wedi ymddeol, roedd hyblygrwydd yn allweddol.



Dyweddodd Ruth James (Mynwy),



yn y cyd-destun Cymreig, y dylai fod elfennau’n gwahaniaethu’r Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys

Loegr. “Rydyn ni’n sefydliad arbennig ac mae’n bwysig nad yw hyn yn cael ei golli.”

Dyweddodd Sue Rivers (Llandaf)



fod Undeb y Mamau, y mae hi’n llywydd esgobol ohono, yn cynnig “paned a chacen gyda chenhadaeth”.

Meddai, “Mae llawer o’r hyn rydych chi wedi sôn amdano’n bodoli eisoes yn Undeb y Mamau. Mae gennym ni’r adnoddau ar gyfer y cyfan rydych chi [Dr Millar] wedi tynnu sylw ato. Rydyn ni’n herio canfyddiadau o Undeb y

Mamau, yn mynd allan i garchardai ac yn helpu teuluoedd sydd wedi’u heffeithio gan gamdriniaeth a dyled. Mae’n bosib mai ni yw’r unig gysylltiad sydd gan bobl â’r Eglwys.”

Dyweddodd Archddiacon Llanelwy,



Andy Grimwood, fod cydweithwyr yn dweud wrtho o hyd nad oes ganddyn nhw’r amser i wneud [Digwyddiadau

Bywyd] yn iawn. “Os yw efengylu’n flaenoriaeth, fe wnewch chi’r amser,” meddai.

Ac roedd ganddo awgrym arall - cynnal cyfarfodydd agored yng nghaffis archfarchnadoedd lleol.

Dyweddodd Sue Last (Llanelwy) fod



llawer o leygion hyfforddedig a allai chwarae rhan bwysig yn y rôl hon, ond nad oedden nhw’n cael eu defnyddio

mor aml ag y gallent.

“Fel gofalwr, rwy’n cael llawer o gefnogaeth gan fy ffrindiau ond dydy’r eglwys ddim yn mynd allan o’u ffordd i’n helpu.”

Dyweddodd yr Athro Jonathan



Shepherd (Llandaf) fod ei brofiad yn ystod ei 40 mlynedd fel llawfeddyg ymgynghorol yn dangos

pwysigrwydd ymyriadau cynnar ym mywyd plentyn i atal ymddygiad treisgar. Bedydd, meddai, oedd man cychwyn proses i ddatblygu unigolion gweddus ac felly roedd yn gyferth â chynhaliath bywyd cynnar.

Yn ei hymateb, dywedodd Dr Millar ei bod wedi’i chalonogi gan ymateb mor gadarnhaol i’r fenter.

“Rydym yn canolbwyntio ar arferion gorau ac yn gobeithio y bydd y rhai ag arferion gwael yn newid,” meddai.

“**Dydw i ddim wedi dod atoch gyda syniad newydd sbon. Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni’n ei wneud eisoes – gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod ni’n ei wneud cystal â phosibl.**”



I gael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau ar gael, gwelwch: [ChurchsupportHub.org](http://ChurchsupportHub.org) a [churchprinthub.org](http://churchprinthub.org)

Cafodd y cynnig, a gynigiwyd gan Esgob Bangor, ei basio’n unfrydol.

### Cynnig:

#### Bod y Corff Llywodraethol:

- (i) yn nodi’r cyfraniad arwyddocaol y mae gwaith Dr Millar yn ei gynnig mewn perthynas â digwyddiadau bywyd; ac
- (ii) yn annog esgobaethau’r Eglwys yng Nghymru i sicrhau bod pob Ardal Weinidogaeth ac Ardal Genhadaeth yn datblygu strategaethau grymus, gan ddefnyddio’r adnoddau a ddarperir, i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu cynnig yn broffesiynol a gydag ymrwymiad i’r sawl sy’n gofyn am weinidogaeth yr eglwys.



# Grant cyntaf y Gronfa Efengylu yn dod â Gobaith i bobl ifanc



1 Hope Street, Wrexham.



Esgob Llanelwy, Gregory Cameron.



Ysgrifennydd yr Esgobaeth, Diane McCarthy.



Cyfarwyddwr Adnoddau, Tracey White.



Archddiacon Wrexham, John Lomas.

**Yn gynharach yr haf hwn, dyfarnodd pwyllgor y Gronfa Efengylu ei grant cyntaf i brosiect esgobaethol. Bydd y grant o bron i £2 filiwn yn ariannu prosiect uchelgeisiol gyda'r nod o greu math newydd o gymuned eglwysig mewn hen siop yn Stryd Gobaith, Wrexham, yn Esgobaeth Llanelwy, gerllaw eglwys blwyf Sant Giles.**

Cafwyd cyflwynwyd ar y prosiect yn y cyfarfod. Fe'i cyflwynwyd gan Esgob Llanelwy, Gregory Cameron, a ddywedodd ei bod yn fraint ganddo ef a'i dîm rannu rhywbeth a oedd yn destun cyffro a gobaith iddyn nhw.

Mae'r prosiect wedi'i anelu'n benodol at genedlaethau iau sydd ag ychydig iawn neu ddim profiad o fywyd eglwys, trwy ddarparu Canolfan Gristnogol a man addoli, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Adfywio Eglwysi.

"Mae llai na 3% o'r boblogaeth yn dewis addoli gyda ni," dywedodd Bishop Gregory. "Beth sydd angen i ni ei wneud? Rydym wedi bod yn ceisio gwella ar yr hyn a wnawn. Dydy hyn ddim yn ddigon. Mae angen i ni ddysgu gwneud pethau'n wahanol, mewn ffordd sy'n ddealladwy ac yn ddeniadol i bobl y tu allan i'r Eglwys."

Dywedodd Ysgrifennydd Esgobaeth Llanelwy, Diane McCarthy, wrth aelodau y byddai'r prosiect, mewn partneriaeth ag Athrofa Padarn Sant, yn meithrin strategaethau twf a chadw ac yn canolbwyntio ar y 97% sydd ar goll. Byddai'r ffocws ar fod yn ddisgyblion yn hytrach nag ar fynychu, meddai. Byddai hon yn gymuned Gristnogol groesawgar, ar agor saith niwrnod yr wythnos.

"Ein nod yw creu eglwys ag adnoddau sy'n hygyrch i 3,000 o bobl, yn enwedig y rhai o dan 40 oed sydd heb berthynas fyw â'r eglwys," meddai. "Bydd yr eglwys yn galluogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddisgyblion gweithredol."

Dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Esgobaeth, Tracey White, eu bod wedi dewis Wrexham oherwydd ei bod yn dref prifysgol. Roedd partneriaethau'n bodoli eisoes gyda'r brifysgol a'r Ysgol Uwchradd Gatholig, Sant Joseff.

Ymhliith y partneriaethau eraill mae Esgobaeth Ffinaidd Helsinki, a fydd yn helpu i ddatblygu prosiect confyrmasiwn, a Byddin yr Eglwys, a oedd yn sefydlu Canolfan Genhadaeth rithwir.

"Rydym yn disgwyl y bydd y prosiect yn gynaliadwy'n ariannol ymhen pum mlynedd ac, erbyn blwyddyn chwech, rydym yn rhagweld y bydd wedi cyrraedd 375 o bobl ac wedi plannu dwy eglwys newydd," meddai.

Pwysleisiodd Archddiacon Wrexham, John Lomas, y dylai ffydd yn Stryd Gobaith gael ei "efelychu a'i fyw ar draws yr esgobaeth".

"Mae defaid yn tueddu i golli eu ffordd pan fyddan nhw'n dod o hyd i rywbeth gwell i wneud," meddai, gan ychwanegu bod llawer iawn o waith wedi mynd i mewn i'r prosiect eisoes.

"Gallwn ddewis suddo gydag urddas neu gallwn ddewis nofio ar wyneb y dŵr. Ni allwn ddewis y tir a gollwyd."

Cyfrannodd arweinwyr ifanc Esgobaeth Llanelwy drwy gyfrwng ffilm fer i gyfleu eu barn ar Stryd Gobaith. "Diolch am gredu ynom a buddsoddi yn Stryd Gobaith," oedd eu neges.

Holodd Andrew Sims (Llandaf) ynghylch agwedd y prosiect tuag at gymunedau LGBT. Cadarnhaodd Mr Lomas fod y prosiect yn croesawu pawb.

Gofynnodd y Canon Martin Snellgrove (Llanelwy), Swyddog Ecwmenaidd yr Esgobaeth, i ba raddau roedd partneriaid ecwmenaidd yn ymwneud â'r prosiect. Dywedodd yr Esgob Gregory eu bod yn "disgwyl gweld pa lwyddiant ddaw i ran Stryd Gobaith."



# Gweinidogion Arloesol

## “be Angli-can rather than Angli-can’t!”

**Yn gynharach eleni, cyfarfu Gweinidogion Arloesol o bob cwr o'r wlad mewn cynhadledd a drefnwyd gan Athrofa Padarn Sant i rannu eu straeon ac i edrych ar ffyrdd o ddatblygu eu gwaith.**



Dyweddodd Helen Shepherd, Swyddog Gweinidogaeth Arloesol, wrth aelodau, mai'r gynhadledd Llais ym mis Ebrill oedd y gyntaf o'i bath a'i bod wedi creu ymdeimlad gwirioneddol o weledigaeth a phwrpas a rennir.

“Roeddem am glywed llais gweinidogion arloesol ar draws y wlad yn myfyrio ar yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod ac i edrych ar ble rydyn ni'n mynd,” meddai.

Fe wnaeth Jonny Baker (yng nghynhadledd Llais, yn y llun), sy'n arwain hyfforddiant cenhadol yng Nghymdeithas Genhadol yr Eglwys, helpu'r grwpiau gyda'u myfyrdodau. “Fe wnaethom ni elwa'n enfawr o'i gyfraniad a chawsom ein herio i fod yn bobl sy'n dweud, 'Angli-can rather than Angli-can't!', meddai Mrs Shepherd.



Yn ôl arolwg, o'r 33 cynrychiolydd, roedd pump yn cael eu cyflogi fel gweinidogion arloesol ordeiniedig. Fodd bynnag, roedd llawer mwy mewn rolau traddodiadol ynghyd â gwirfoddolwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn arloeswyr ac yn ymwneud â gwaith arloesol.

“Mae hyn yn gyffrous gan ei fod yn profi bod yna ddealltwriaeth o arloesi, a'i fod ar gynydd, a bod pobl yn cydnabod ei fod yn rhywbeth y gall unrhyw un ei wneud mewn unrhyw gyd-destun,” meddai Mrs Shepherd. “Mae'n codi cwestiynau i ni ynglŷn â'r ffordd orau y gallwn gefnogi a hyfforddi'r rhai nad ydyn nhw efallai'n cael eu cydnabod fel arloeswyr ond sy'n ymwneud â gwaith arloesi, gan ddarparu adnoddau ar eu cyfer.”

Dangosodd yr arolwg hefyd fod “nifer ac ehangder anhygoel” o brosiectau'n dod i'r amlwg ac yn cael eu datblygu, o fathau newydd o eglwysi i ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r gymuned.

“Mae'r potensial ar gyfer prosiectau arloesol yn enfawr, rydym yn gweithio i'w cefnogi fel bod prosiectau'n dwyn ffrwyth.”

Wrth edrych ar effaith yr hyn a oedd eisoes yn digwydd, dangosodd yr arolwg bod gwaith 18 o wirfoddolwyr yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ystyrion â 1,935 o unigolion, gyda'r mwyafrif erioed wedi mynychu'r eglwys o'r blaen. Roedd mwy na 900 ohonyn nhw'n mynychu'r eglwys neu'n archwilio ffydd.

“Mae hynny'n cyfateb i fwy na thraean o'r mynychwyr ar y Sul ar gyfartaledd yn eglwysi Esgobaeth Bangor ac i chwarter yn esgobaethau Mynwy ac Abertawe ac Aberhonddu. Mae lefel yr effaith yn arwyddocaol iawn – mae'r rhain yn gysylltiadau newydd ac maen nhw ar gynydd.”

Dyweddodd Mrs Shepherd fod adroddiad ar weinidogaeth arloesol bellach yn cael ei baratol i'w ystyried gan yr Esgobion.

Dyweddodd y Parch Justin Groves (Mynwy), “Rhaid i ni arloesi neu byddwn yn marw. Arloesi yw ein galwedigaeth. Rhaid i ni newid ein meddyliau er mwyn cael gweledigaeth fwy o'r Iesu a chalon fwy ar gyfer y tlawd.”




Dyweddodd y Parch Adam Pawley (Llanelwy) ei fod yn edrych ymlaen at y diwrnod pan fydd pob unigolyn ordeiniedig yn gweld gweinidogaeth arloesol fel rhan o'i rôl.

Disgrifiodd y Parch Dominic McClean,



cyfarwyddwr galwedigaethau ar gyfer Esgobaeth Bangor, rôl 'diaconiaid neilltuol' yn yr esgobaeth. Roedd yna eisoes bedwar ohonynt a thri arall wrthi'n cael eu hyfforddi. “Mae'r rôl hon wedi dod i'r amlwg fel rôl hynod arloesol. Mae'n weinidogaeth sy'n pontio eglwys a chymuned,” meddai.



“Rwy'n cymeradwyo'r swydd ddiakon neilltuol hon fel rhywbeth sy'n hen ac eto'n newydd, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol yn yr esgobaeth.”

Dyweddodd yr Esgob Joanna, “Wrth i ni gymeradwyo gwaith cyffrous y weinidogaeth arloesol, fy ngobaith yw ein bod ni'n cofio nad ydym yn cael ein galw i wastraffu amser ar fanion a newid yr hyn rydym ni'n ei wneud mewn gwasanaethau, ond yn hytrach ein bod yn newid y ffordd rydym yn byw ein bywydau Cristnogol fel ein bod yn denu pobl i fyw yng Nghrist.”

Ymatebodd yr Esgob Andy, wnaeth ddwyn y cynnig gerbron.



“Mae ein datblygiad yn embryonig. Rydym am ddod â rhywfaint o'r cyffro a'r egni a'r angerdd o ble'r ydym ni arni, ac am i'r eglwys gyfan ddathlu gyda'n harloeswyr a chadarnhau'r hyn sy'n digwydd,” meddai. “Mae heddiw'n giplun o ble'r ydym ni arni – mae heddiw'n rhybudd ymlaen llaw bod hon yn drafodaeth a fydd yn mynd â mwy a mwy o'n hamser.”

**Cafodd y cynnig ei gefnogi'n unfrydol.**


### Cynnig:

#### Bod y Corff Llywodraethol:

yn croesawu mentrau creadigol mewn gweinidogaeth arloesol yn yr Eglwys yng Nghymru ac yn cymeradwyo'r gwaith strategol a wneir i ddarparu fframwaith taleithiol ac esgobaethol ar gyfer y weinidogaeth hon sy'n datblygu.

# Yr adroddiad ar aelodaeth yn canolbwyntio ar waith allgymorth

**Yn lle gweld bai arnom ein hunain am nifer cynyddol y seddi gwag ar y Sul, beth am ganolbwyntio ar y genhadaeth a gawsom gan Dduw i drawsnewid bywydau pobl, meddai'r Parch Ddr Mark Griffiths, tiwtor ymchwil genhadol yn Athrofa Padarn Sant, wrth iddo gyflwyno'r adroddiad Aelodaeth a Chyllid.**



Am y tro cyntaf, ychwanegodd yr adroddiad aelodaeth a chyllid at y data ystadegol arferol trwy gyflwyno chwech o straeon 'newyddion da' am fentrau mewn eglwysi ledled Cymru.

"Mae hyn yn ymwneud â gwerthfawrogi'r pethau a wnawn," meddai Dr Griffiths.

"Mae'n ymwneud â chydabod ei bod yn iawn i ni siarad am straeon llawen ar y Sul, cyn belled â'n bod yn treulio gweddill yr wythnos yn creu straeon llawen."

Ychwanegodd, "Caffis dementia, clybiau cinio, cymun i siopwyr... mae'r rhain i gyd yn cynnig gobaith i'n cymunedau ac mae'r adroddiad Aelodaeth a Chyllid yn bwysig o ran cyfathrebu ffyrdd newydd o fod yn eglwys."

Cadarnhaodd Dr Griffiths fod gwaith ar y gweill i ganfod mesurau ychwanegol i sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi holl fywyd yr eglwys yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar nifer cyfartalog y bobl sy'n mynychu ar y Sul.


Gofynnwyd a yw'r adroddiad yn canolbwyntio gormod ar straeon newyddion da, gan anwybyddu'r gostyngiad pryderus yn nifer y bobl sy'n mynychu ar y Sul. "Ai'r ddeilen ffigys sy'n cuddio cywilydd ein methiannau yw'r straeon newyddion da hyn?" gofynnodd y Parch Ddr Kevin Ellis (Bangor).



Dywedodd y Parch Richard Wood (Bangor) fod gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu yn bryder cyffredin sy'n ysgogi gweithredu, "Rydw i'n pryderu bod canolbwyntio ar straeon newyddion da yn anwybyddu cryfder y pryderon rydyn ni'n eu rhannu ynglŷn â'r dirywiad mewn addoli. Y pryderon yma sy'n ein harwain i gymryd camau – felly ddylen ni ddim anwybyddu hyn."

Wrth ymateb, dywedodd Andy John, Esgob Bangor, "Gall fod yn anodd i ni symud oddi wrth fesur nifer y bobl sy'n mynychu ar y Sul, ond trwy wneud hynny rydyn ni'n gweld enghreifftiau lle gallwn ni ddysgu gan ein gilydd."

Daeth Dr Griffiths â'r drafodaeth i ben trwy ddweud y byddai dulliau mesur newydd yn cael eu treialu dros yr Hydref a'r Gaeaf. "Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol," meddai



**Cynnig: cytunwyd yn unfrydol dylai'r Corff Llywodraethol nodi'r adroddiad hwn.**

## ACC-17 – Cerdded gyda'n gilydd ar draws y byd

**Cymru oedd yr unig dalaith i anfon dwy fenyw yn gynrychiolwyr i gyfarfod rhyngwladol y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd eleni.**

Mynychodd Dr Heather Payne (Llandaf) ac Archddiacon Bangor, Mary Stallard, gyfarfod rhif 17 y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd (ACC-17). Cynhaliwyd y cyfarfod yn ystod y gwrthdystiadau o blaid democratiaeth yn Hong Kong ym mis Mai.

Helpodd curiad yr addoli beunyddiol – yn cynnwys canu emynau Cymraeg cyfarwydd – i chwalu'r rhwystrau rhwng y rhai oedd yn bresennol, meddai Dr Payne, wrth gyflwyno'r adroddiad i'r aelodau.

"Fe wnaethon ni gyrraedd fel dieithriaid a gadael fel cyfeillion," meddai. "Doedden ni ddim yn cytuno ar bopeth, ond roedden ni'n glir ynglŷn â'n cenhadaeth gyffredin. Y thema oedd y ffordd i Emaus – wnaeth pob talaith ddim dod, ond i'r rhai oedd yno roedd y pwyslais ar gerdded gyda'n gilydd yn wych."

Bu bron i'r broses â mynd ar chwâl ar y diwrnod olaf yn ystod y drafodaeth ar rywioldeb dynol," meddai




Dr Payne. "Yn y pen draw, cafodd y mater ei ddatrys ar ôl llawer o drafod ac ymyrraeth gan Archesgob Caergrawnt, a gynigodd alw gweithgor i ymdrin â'r mater. Roedd yn ddigwyddiad allweddol."

Roedd cael safbwynt rhyngwladol ar wahanol faterion yn ein "helpu i godi ein golygon", meddai Dr Payne. "Rydyn ni mewn sefyllfa wahanol iawn i lawer o eglwysi eraill yn y byd," meddai, gan nodi heriau fel newid hinsawdd, priodasau plant ac erledigaeth. "Mae'n bwysig i ni gydgyssylltu ar draws y byd a chanfod synergedd."

Un o ganlyniadau'r cyfarfod oedd cytuno i sefydlu rhwydwaith iechyd Anglicanaidd. Bydd Dr Payne yn gweithio arno.

Daeth â'r drafodaeth i ben trwy gynnig syniadau ynglŷn â beth allai Cymru ei wneud nesaf er budd y cymunedeb ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio partneriaethau allweddol yng Nghynhadledd Lambeth y flwyddyn nesaf a chysylltiadau gyda rhwydweithiau rhyngwladol, camau'n ymwneud â newid hinsawdd, adnoddau ar gyfer bod yn ddisgyblion a bod yn eglwys ddiogel. "Braint o'r mwyaf oedd cael bod yno," meddai Dr Payne.



# Adolygu proses y Coleg Etholiadol

## Cafodd diwygiadau arfaethedig i'r Coleg Etholiadol sy'n goruchwyllo'r dasg o benodi esgobion eu croesawu, ond nid eu cymeradwyo.

Pleidleisiodd yr aelodau i ddiwygio'r cynnig er mwyn i'r ddeddfwriaeth ddrafft adlewyrchu argymhellion yr adroddiad yng ngoleuni pryderon a godwyd yn ystod trafodaeth y Corff Llywodraethol.

Wrth gyflwyno'r cynnig, dywedodd



y Canon Steven Kirk (Llandaf), a fu'n cadeirio'r adolygiad, ei bod yn arferol asesu prosesau'r coleg o dro i dro. Fodd

bynag, cydnabu'r adroddiad fod yr adolygiad hwn, a gomisiynwyd ym mis Rhagfyr 2017, wedi ei gynnal mewn cyd-destun mwy cymhleth, yn dilyn methiant y coleg i benodi esgob ar gyfer Llandaf ym mis Chwefror 2017 a'r feirniadaeth ddilynol o'r broses.

Dywedodd y Canon Kirk fod yr adolygiad wedi nodi nifer o feysydd i'w diwygio gan wneud 25 argymhelliad. Roedd torri cyfrinachedd yn destun pryder, ac roedd yna ddiffyg gwybodaeth gyson a da am yr ymgeiswyr. "Mae yna linell denau rhwng cyfrinachedd (confidentiality) a chyfrinacholdeb (secrecy)," meddai.

Roedd y gweithgor wedi cael cyngor gan sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill cyn llunio'r saith egwyddor sy'n sail i'r broses. Aethant ati i dynnu sylw at yr angen am degwch, cyfle, a system fwy trwyadl.

Rhywbeth arloesol ac allweddol fyddai sefydlu Pwyllgor Paratoi. Byddai hwn yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr addas, yn paratoi rhestr fer o dri i bump o bobl, ac yn trefnu gweithgareddau ymgysylltu yn yr esgobaeth wag.

Argymhelliad arall oedd y dylai diwrnod cyntaf cyfarfod y Coleg Etholiadol fod yn 'ddiwrnod paratoi',

lle byddai ymgeiswyr yn gwneud cyflwyniadau ac yn ateb cwestiynau. Byddai'r ail a'r trydydd diwrnod yn parhau i fod yn ddiwrnodau dirnad a phleidleisio.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan James Turner, cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr, a ddywedodd mai'r nod oedd cael cydbwysedd rhwng trylwyrdar proffesiynol a sensitifwydd ysbrydol.

"Os bydd y rhai sy'n gyfrifol am ddewis esgobion yn cael y wybodaeth lawn, bydd hynny'n arwain at ymateb mwy dilys i arweiniad yr Ysbryd Glân," meddai.

Mynegodd Paul Murray (Abertawe ac Aberhonddu) bryderon ynghylch y ffaith na all aelodau'r Pwyllgor Paratoi fod yn aelodau o'r Coleg Etholiadol. "Mae rhoi iddyn nhw'r pŵer i lunio rhestr fer yn lleihau swyddogaeth y Coleg i banel cyfweld yn unig," meddai.

Dywedodd y Parch Phil Bettinson (Llanelwy) y dylai'r rhestr fer fod yn hirach ac na ddylid ei rhoi yn nwylo'r wasg "a allai eu gwrthwynebu am ryw reswm neu'i gilydd".



Ym marn Sandra Ward, Bangor, roedd yr adroddiad yn rhagorol ac yn gam gwyh ymlaen.



Dywedodd y Parch Joel Barder (Tyddewi) fod y ffaith fod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â mwyafrif o ddwy ran o dair "yn gorchuddio clwyf enfawr posibl". Roedd yn bwysig cadw hyn, meddai.

Cydnabu Ruth James (Trefynwy) fod cyfrinachedd yn bwysig, ond dylid cael atebolrwydd hefyd. "Ni ddylid ei ddefnyddio fel tarian pan fydd

pethau ddylai fod yn destun craffu yn digwydd," meddai.

Roedd y Parch Josh Maynard yn ofni gallai esgobion gamddefnyddio'r pwyllgor paratoi. "Mae'n system allai gael ei chamddefnyddio, oherwydd gall esgobion ddewis y rhai sy'n dewis pwy fydd yn eu hollynu fel esgobion."

Roedd y Parch Richard Wood (Bangor) yn ofni y byddai bod yn aelod o banel â 47 aelod yn anodd. Awgrymodd hefyd fod hunanenwebu'n ddiangen pe bai gan yr ymgeiswyr gefnogaeth gan eraill.

Dywedodd Deon Aberhonddu, Paul Shackerley, fod yr adroddiad yn dda a'i fod yn symud tuag at dryloywder, ond bod angen gwneud mwy o waith arno.

Cynigiodd Archddiacon Tyddewi, Paul Mackness, y diwygiad i dderbyn a chroesawu'r cynnig, ond nid ei gymeradwyo, a chynigiodd y dylid ystyried y ddeddfwriaeth ddrafft yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth.



## Derbyniwyd y cynnig diwygiedig yn unfrydol.

### Cynnig:

### Bod y Corff Llywodraethol:

- (i) yn derbyn a chroesawu Adroddiad Gweithgor Adolygu'r Coleg Etholiadol dyddiedig Gorffennaf 2019 ac yn cymeradwyo'r argymhellion sydd ynddo;
- (ii) yn gofyn i'r Pwyllgor Sefydlog gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Cyfansoddiad lle bo angen i adlewyrchu argymhellion yr Adroddiade.

# Trafodaeth ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl

**Mae gan eglwysi rwymedigaeth foesol i daclo caethwasiaeth a masnachu pobl, medd arbenigwr blaenllaw y DU ar atal caethwasiaeth yn ei araith gerbron y Corff Llywodraethol.**

Gofynnodd Kevin Hyland, Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol cyntaf y DU, i'r Eglwys "ddefnyddio ei harweiniad moesol"



a dod â gobaith i'r 40 miliwn o bobl sy'n byw mewn caethwasiaeth heddiw.

"Mae'n fusnes hynod broffidiol ac anghyfreithlon ac yn masnachu mewn pobl. Yn ddi-os, mae'r busnes yma'n ffynnu, gyda digonedd o gamfanteiswyr eisiau elwa ar ddiodefaint pobl eraill. Yn drist ddigon, mae bod yma heddiw yn siarad am gaethwasiaeth yn dwyn gwarth ar bob un ohonon ni."

Cyflwynwyd Mr Hyland gan Esgob Llandaf, Gregory Cameron. Mr Hyland yw cyn-bennaeth Uned Masnachu Pobl Gwasanaeth



Heddlu Metropolitan Llundain, ac mae'n gynrychiolydd Iwerddon ar Grŵp Annibynnol Arbenigwyr Masnachu Cyngor Ewrop.

Meddai Mr Hyland, "Gyda chamfanteiswyr rif y gwllith, mae deunyddiau crai ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd eisiau elwa ar ddiodefaint pobl. Mae masnachu pobl yn hyblyg yn ei ymateb i alw'r farchnad; pa un a ydych chi'n sôn am brynu a gwerthu organau dynol, cam-fanteisio rhywiol, troseddau dan orfod neu lafur dan orfod. Fel busnes, mae'n ffynnu ar anghydraddoldeb, gan dargedu'r tlawd sy'n ddigartref oherwydd gwrthdaro neu gam-fanteisio ar fenywod a merched ifanc sydd, drwy'r byd, yn cyfateb i gyfran anghymesur o uchel o'r rhai sy'n cael eu gorfodi i fynd i gaethwasiaeth."

Yn yr wythnos cyn y drafodaeth, cytunodd yr Eglwys yng Nghymru i gefnogi ymestyn Menter Clewer i Gymru.

"Caiff camddefnyddio awdurdod, llygredigaeth, a'r chwant am arian neu fusnes costied a gostio eu cysylltu â'r hyn mae'r Pab Francis yn ei alw'n 'ddifaterwch byd-eang'," meddai Mr Hyland. "Mae tosturi, parch tuag at eraill, defnyddio pŵer mewn ffordd foesegol, cydraddoldeb, a hyd yn oed democratiaeth ei hun, yn cael eu herio, gan adael gwactod yn llawn troseddwy'r sydd eisiau cam-fanteisio ar eraill. Mae protocolau, cyfarwyddiaethau a chytuniadau i'w cael i geisio atal masnachu, ond yn aml gall fod yn amhosibl i ddiodefwy'r neu awdurdodau eu defnyddio neu eu rhoi ar waith."

Nid yw ymdrechion byd-eang i daclo masnachu pobl yn cael eu hariannu'n ddigonol, rhybuddia, ac maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth. Mae angen mwy o fuddsoddiad ariannol ac ymgysylltu gwleidyddol, gan ystyried diodefaint pobl yn gyntaf ac yn bennaf. "Mae gweithredu strategol ar lawr gwlad yn hanfodol," meddai.

Drwy'r byd, rhoddwyd \$153bn o gymorth i atal caethwasiaeth; ond eto i gyd, roedd y fasnach mewn caethweision yn werth \$150bn. Roedd y troseddwy'r yn ennill cymaint ag a roddwyd mewn cymorth. Y llynedd yn unig, cafwyd 7,000 o euogfarnau. "Os ydych chi'n dioddef caethwasiaeth, mae yna siawns o 99% na chewch chi mo'ch achub," meddai Mr Hyland.

Mae angen mynnu bod llywodraethau'n atebol am y ffordd maen nhw'n gwario arian trethdalwyr, ac mae angen i fusnesau wneud yn siŵr fod eu cadwyn gyflenwi'n rhydd o gaethwasiaeth fodern. "Caiff fflydoedd cyfan o awyrennau eu hatal rhag hedfan ar ôl dod o hyd i ddiffygion, ond faint o gwmnïau fyddai'n atal eu busnesau rhag masnachu pe bai llafur dan orfod yn dod i'r amlwg yn eu cadwyn

gyflenwi?" gofynnodd Mr Hyland.

Yn anffodus, mae pob un ohonom yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern heb yn wybod, meddai. Caiff mwynau fel cobalt a mica eu defnyddio mewn ffonau symudol, ond cânt eu heithrio o'r ddeddfwriaeth mwynau sydd ar ddod, a fydd yn mynnu bod mwynau sy'n tarddu o ardaloedd lle ceir gwrthdaro yn cael eu labelu.

"Yr eglwys yw'r sefydliad all ddod ag urddas yn ôl i'r 40 miliwn o fywydau gaiff eu niweidio bob dydd," yn ôl Mr Hyland. "Mae'r eglwys yn ddylanwadwr mawr a gall fynd i ganol sefyllfaoedd a chwalu drwgdybiaeth. Onid grwpiau Ffydd a'r Pab Francis, yn arbennig, fu'n lobio'n galed i sicrhau bod targedau caethwasiaeth fodern yn cael eu cynnwys yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig."

"Mae angen i ni ysgogi mwy o weithredu a sicrhau bod modd rhoi'r drosedd hon yn ôl yn ein llyfrau hanes."

Dywedodd yr Esgob Gregory wrth yr aelodau fod caethwasiaeth fodern, yn anffodus, yn realiti yng Nghymru, a'i bod yn cynyddu. "Ddau gan mlynedd yn ôl arweiniodd William Wilberforce ymgyrch i gael gwared â chaethwasiaeth. Mae'n fy syfrdanu bod mwy o bobl heddiw yn byw mewn caethwasiaeth nag oedd yna yn nyddiau Wilberforce," meddai.

"Yn fy esgobaeth i, mae Hafan o Oleuni – elusen yng Ngogledd Cymru – yn gweithio gydag esgobaethau Llanelyw a Bangor i roi diwedd ar gaethwasiaeth ac achub pobl sy'n gwneud llafur dan orfod. Rydyn ni wedi bod yn ddall i'r hyn sy'n digwydd yn ein plith am ormod o amser."

Cydnabu'r Esgob Gregory fod cynnydd yn cael ei wneud. "Mae gennym Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn y DU, ac yng



Nghymru mae gennym Gomisiynydd yr Heddlu sy'n gyfrifol am daclo caethwasiaeth fodern, ac mae asiantaethau fel Hafan o Oleuni a Menter Clewer yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth. Ond yn ôl pob arwydd, mae'r arfer o fasnachu ein brodyr a'n chwiorydd yn cynyddu."

Wrth grynhoi, dywedodd yr Esgob Gregory, "Gofynnir i chi nid yn unig i bleidleisio yn erbyn caethwasiaeth, ond hefyd ysgogi'r Eglwys yng Nghymru i weithredu."

Cafodd y cynnig ei eilio gan Ddeon Trefynwy, Lister Tonge, caplan yng nghwfaint y Chwiorydd yn Clewer. "Mae ein dylanwad mewn cymdeithas yn lleihau, ond dyw hyn ddim yn golygu na allwn ni wneud gwahaniaeth yn yr un ffordd ag y mae'r Chwiorydd yn ei wneud heddiw. Dyna pam rydyn ni'n rhoi arian i ymestyn Menter Clewer i Gymru."

Soniodd y Parch Phil Bettinson (Llanelwy) am fenyw a gadwyd mewn caethwasiaeth. Dim ond i'r eglwys câi fynd. Mewn sgwrs gyda hi ar ôl pregeth, lle soniwyd am achubiaeth a rhyddid, sylweddolodd ei bod yn cael ei chadw mewn caethwasiaeth. "Pan mae pobl mewn caethwasiaeth yn ceisio dweud wrthyhych chi beth yw eu sefyllfa, mae'n swnio fel pe baen nhw ar contract 'dim oriau'. Os byddwch chi'n siarad â rhywun sydd o bosibl yn cael eu masnachu, holwch nhw er mwyn gweld pa mor rhydd ydyn nhw."

Gofynnodd Dr Robert Wilkinson (Tyddewi) am arweiniad ar brynu'n foesegol, a gofynnodd i'r Corff Llywodraethol edrych ar ei fuddsoddiadau ei hun. "Mae angen i ni roi pwysau ar ein llywodraethau i edrych sut mae eu cadwyni cyflenwi'n gweithio, ac mae angen i ni edrych ar ein buddsoddiadau ac asesu ydyn ni'n buddsoddi mewn cwmnïau sy'n caniatáu masnachu pobl."

Mewn ymateb i hyn,



dywedodd Esgob Tyddewi, Joanna Penberthy, fod Pwyllgor Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yn

ymchwilio i'w fuddsoddiadau a'i gadwyni cyflenwi.

Awgrymodd y Parch Nigel Doyle (Abertawe ac Aberhonddu) y dylid datblygu cyfres o gwestiynau y gallai plwyfolion eu rhoi gerbron gwleidyddion adeg etholiad, a hefyd awdurdodau lleol.

Anogodd Sue Rivers (Llandaf) bawb i lawrlwytho ap 'Safe Car Wash' Menter Clewer er mwyn gweld pa fusnesau golchi ceir sy'n cael eu hamau o ddefnyddio llafur dan orfod.

Aeth y Parch Jon Durley (Llandaf) ati i annog y Corff Llywodraethol i alw ar ein heglwys i a'n hysgolion i greu manau diogel i blant er mwyn



eu rhwystro rhag cael eu dal mewn caethwasiaeth.

Gofynnodd Archddiacon Llanelwy, Andy Grimwood, i'r aelodau beidio â chadw'r pecynnau gwybodaeth atal caethwasiaeth o'r golwg, ond yn hytrach eu defnyddio. "Os ydych chi'n gysylltiedig â gofal bugeiliol, fe fyddwch chi'n siŵr o ddod ar draws y broblem hon ac fe fydd angen i chi ddefnyddio'r wybodaeth."

Roedd Terri Hatfield (Tyddewi) o'r farn y dylai'r cynnig fod yn gryfach. "Fe ddylen ni fod yn wirioneddol flin ynglŷn â hyn – beth am roi 'cawr cwsg' yr Eglwys yng Nghymru ar waith a gwneud rhywbeth!" meddai. "Mae caethwasiaeth a masnachu rhyw yn droseddau dychrynlyd. Rydw i'n credu bod y cynnig yn wan ac yn annelwig."



Dywedodd yr Archesgob John fod yr Eglwys yng Nghymru yn "gwrthwynebu caethwasiaeth fodern yn gyfan gwbl ac yn llwyr. Rydyn ni'n ei wrthwynebu'n hollol



dywedodd Esgob Tyddewi, Joanna Penberthy, fod Pwyllgor Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yn

ddiamod." Ychwanegodd, "Mae'r term 'caethwasiaeth fodern' yn codi ias ar rywun. Rydyn ni'n tueddu i feddwl bod popeth modern yn slic ac yn soffistigedig, ond mae hyn yn ffaidd ac yn warthus."

Wrth ymateb, gofynnodd Mr Hyland am gael newid y system sy'n delio â dioddefwyr posibl. "Mae'n wych ein bod yn dod o hyd i'r dioddefwyr, ond ar ôl iddyn nhw gael eu cyfeirio at system y Swyddfa Gartref, gall gymryd blynyddoedd i benderfyniad gael ei wneud ynghylch ydyn nhw'n dioddef caethwasiaeth ai peidio. Mae angen i hyn newid."

Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd yr Esgob Gregory, "Nid geiriad y cynnig sy'n bwysig, ond y ffordd y byddwn ni'n ei roi ar waith."

### Pasiwyd y cynnig yn unfrydol.

Cynnig:	
Bod y Corff Llywodraethol yn:	
(i)	ystyried pob ffurf ar gaethwasiaeth a masnachu pobl yn drosedd yn erbyn dynoliaeth, ac yn gresynu at barhad eu bodolaeth yn y byd modern;
(ii)	cymradwyo ymdrechion y gymuned ryngwladol, ein llywodraethau ni, awdurdodau gorfodi'r gyfraith a chymdeithasau gwirfoddol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl;
(iii)	gresynu at fethiant ein cymdeithas i roi diwedd ar bla caethwasiaeth fodern, a chydnabod bod anwybodaeth a difaterwch yn ffurfiau ar oddef a chyfrannu at hynny;
(iv)	cefnogi a gweddio dros ein partneriaethau traws-sector, mentrau gwirfoddol, grwpiau busnes ac addysg, a phob ymdrech i gydweithredu a harneisio ewyllys da i roi diwedd ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl;
(v)	ymrwymo i archwilio pob cyfle i wneud ein rhan o ran gweithio i drechu caethwasiaeth fodern, ei hatal, ei chanfod a chynnig cymorth i'w dioddefwyr.

# CYLLID: “Blwyddyn gythryblus”

**Cyflwynodd Cadeirydd y Corff Cynrychiadol, James Turner, ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018, gan ddweud ei bod wedi bod yn “flwyddyn gythryblus”.**



Roedd colledion ar fuddsoddiadau'r Corff Llywodraethol yn £26m. Roedd y gwariant £2m yn fwy na'r incwm, fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Neilltuwyd £10m ar gyfer y Gronfa Efengylu. Y sefyllfa net oedd colled gyffredinol o £11m o gronfeydd Corff y Cynrychiolwyr.

Yn ôl Mr Turner, ers mis Ionawr cafwyd rhai adegau gwell yn y farchnad fuddsoddi, ond y tu ôl i'r rhifau roedd yna bentwr o risgiau tymor byr oedd yn bygwrth rhagolygon byd-eang.

“Ond mae buddsoddiadau'r Corff Llywodraethol yn elwa ar y ffaith ein bod yn buddsoddi'n fyd-eang,” meddai. “Mae oddeutu 50% o'n daliannau y tu allan i'r DU, felly mae ein perfformiad o gymharu â'r meincnodau a ddefnyddiwn ac o gymharu ag elusennau eraill wedi bod yn well.”

Gan edrych tua'r dyfodol, dywedodd Mr Turner ei bod yn debygol y byddwn yn mynd trwy gyfnod o enillion llai ar fuddsoddiadau, sef rhywbeth a fydd yn cymhlethu'r dasg barhaus o gydbwysu ymrwymïadau gwariant, fel y grant bloc i esgobaethau, y Gronfa Efengylu, cymorth gweinidogaethol a darparu gwasanaethau taleithiol, tra'n parhau i geisio darparu cyllid ychwanegol mewn meysydd eraill a sicrhau ein bod yn dal gafael ar y sylfaen cyfalaf.

Dwy ystyriaeth bwysig fu effaith yr adolygiadau diweddar ar dâl clerigion a chyllido eglwysi cadeiriol. Yn y ddau achos, roedd yr argymhellion wrthi'n cael eu dadansoddi. “Mae'n hollbwysig i ni daro deuddeg yn hyn o beth,” meddai.

Dywedodd Mr Turner ei fod wedi taro nodyn rhybudd o friad yn ei adroddiad. “Ond gallaf dawelu eich meddwl mai tasg ymddiriedolwyr Corff y Cynrychiolwyr yw cynorthwyo gwaith yr Eglwys ar y lefel uchaf bosibl.”

Cafodd y cynnig ei eilio gan Syr Paul Silk, a gafodd ei ethol fel Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr ym mis Mawrth. Amlinellodd sut mae'r corff – sydd, meddai, yn darparu traean y costau ar gyfer rhedeg yr Eglwys – yn bwriadu darparu ei gymorth.



Ond mae mwy i 'gymorth' na 'chymorth ariannol' yn unig, meddai. Ac roedd Corff y Cynrychiolwyr eisiau gwneud bywyd yn haws mewn nifer o feysydd:

- y system hawlebau ar-lein ar gyfer Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelu yr Esgobaeth
- cyngor yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- gwefan newydd
- tîm penodedig i ganfod ffyrdd o ddefnyddio eglwysi diangen.

“Mae angen i Gorff y Cynrychiolwyr fod yn ochelgar, ond rhaid iddo bob amser gymryd risgiau a bod yn arloesol o ran datblygu a chynnal gwaith yr Eglwys ac adeiladu Eglwys ar gyfer yfory,” meddai.

Gofynnodd y Parch Richard Wood (Bangor) sut bydd



newidiadau i weithdrefnau diogelu'n cael eu cyfathrebu, a hefyd pam nad oedd yr adroddiad ar dâl clerigion wedi ei gyhoeddi'n llawn.

Dywedodd Mr Turner fod yr Adolygiad o Dâl Clerigion yn waith pwysig iawn. Mae cynnydd yn cael ei wneud a bydd yn cael ei gyhoeddi'n syth ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Yn y cyfamser, roedd newidiadau'n ymwneud â gweithdrefnau diogelu wedi cael eu rhoi ar y wefan a'u hanfon i esgobaethau.

Mynegodd y Parch Naomi Starkey (Bangor) bryder ynghylch y ffaith fod 4.8% o fuddsoddiadau'n dal i fod mewn cwmnïau olew a nwy, a mynnodd dylid eu symud i gwmnïau sy'n rhoi blaenoriaeth i ynni adnewyddadwy.



Dywedodd Mr Turner bydd hyn yn cael ei ystyried ym mis Rhagfyr ac y bydd cynigion yn cael eu dwyn gerbron y Corff Llywodraethol fis Ebrill nesaf.

Dywedodd Esgob Tyddewi, Joanna Penberthy, fod y



Pwyllgor Buddsoddi Moesegol wedi penderfynu dair blynedd yn ôl mai strategaeth o ymgysylltu â chwmnïau fel Shell oedd y peth gorau. Fodd bynnag, nid oedd cynigion a roddwyd gerbron cyfarfodydd rhanddeiliaid wedi arwain

at newid, felly roedd y pwyllgor nawr yn argymhell y dylai'r ymddiriedolwyr ddadffuddsoddi.

“Mae'r cwmnïau gorau, hyd yn oed, yn dal i fwriadu chwilio am fwy o nwy ac olew,” meddai.


Apeliodd Terry Hatfield (Tyddewi) am fwy o help i blwyfi sy'n cael trafferth talu costau sylfaenol. “Caiff Corff y Cynrychiolwyr ei weld fel twll du sy'n sugno arian allan o'r system,” meddai. “A wneuch chi wrando ar beth sy'n cael ei ddweud o'r seddi ac ystyried ein helpu mewn rhyw ffordd.”

Wrth ymateb, dywedodd Mr Turner fod yn rhaid i Gorff y Cynrychiolwyr gadw'r ddysgl yn wastad. “Mae pawb yn teimlo'r wasgfa,” meddai.

**Cafodd y cynnig dylai'r Corff Llywodraethol gymeradwyo adroddiad Corff y Cynrychiolwyr ei dderbyn, gyda thri yn ymatal.**



# Hawl i Holi




## C 1. Y Parch Dean Roberts (Trefynwy)

*Mae Esgobaeth Trefynwy yn chwilio am esgob newydd ar hyn o bryd. Mae cryn ddiddordeb wedi bod yn y swydd wag o fewn yr esgobaeth ac mae nifer o glerigion a lleygion yr Eglwys yng Nghymru wedi cynnig ymgeiswyr posibl i'r Coleg Etholiadol ar ôl cael eu hannog i wneud hynny. Fodd bynnag, mae yna lawer o ddryswch ynglŷn â sut dylid cynnig ymgeiswyr i'r Coleg Etholiadol, ac i bwy y dylid eu cynnig. A oes modd cyhoeddi canllawiau clir ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru i gyd yn nodi sut caiff esgob newydd ei benodi, sut i gyflwyno cynigion i Etholyddion, a phwy yw aelodau'r Coleg Etholiadol ar unrhyw adeg, er mwyn i'r Eglwys yng Nghymru allu gwella tryloywder a bod yn fwy agored, tra'n cydnabod bod angen cynnal cyfrinachedd y Coleg Etholiadol? Hefyd, a fyddai modd rhoi canllawiau i'r Etholyddion o ran sut i ymdrin â chynigion a roddir iddyn nhw, er mwyn sicrhau bod enwau'n cael eu cynnig i'r coleg eu hystyried?*

### Ateb – Yr Archesgob

Dyma gwestiwn amserol gan ein bod ar fin cynnal un o gyfarfodydd y Coleg Etholiadol i ethol Esgob Trefynwy, a hefyd ar adeg pan mae adroddiad gan Weithgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Sefydlog i adolygu proses y Coleg Etholiadol, lle cyflwynir argymhellion i'r Eglwys ynglŷn â'r broses honno, ar agenda cyfarfod y Corff Llywodraethol. Byddwn yn defnyddio'r broses bresennol wrth ethol yr wythnos nesaf.

Cafodd canllaw llawn yn ymwneud â'r etholiad ei ychwanegu at wefan yr Eglwys yng Nghymru ym mis Awst, a gellir mynd ato o'r dudalen flaen. Mae'n delio â chwestiynau fel: pwy fydd yn ethol yr esgob, ble bydd yr etholiad yn cael ei gynnal, pwy sy'n gymwys i gael ei ethol, sut caiff ymgeiswyr eu henwebu, a beth fydd yn digwydd yn ystod cyfarfod y Coleg. Hefyd, mae'n nodi pryd bydd penderfyniad yn cael ei gyhoeddi a beth fydd yn digwydd nesaf.



## C 2. Y Parch Josh Maynard (Tyddewi)

*Yn ystod mis Awst bu Esgobaeth Llandaf a'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Babell Ffydd yn Pride Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn datganiadau i'r wasg a thrwy gael nifer o glerigion i fynychu'r digwyddiad. Fel rhan o'r digwyddiad cynhaliwyd tair sesiwn "amser stori brenhines ddrag". Mae gan y frenhines ddrag dan sylw fideos YouTube o'r enw "Good Christian bitches" a "the most underrated type of gay sex", yn ogystal â nifer o fideos eraill sy'n cynnwys deunydd cignoeth sy'n groes i'r ffydd Gristnogol. Er mai "trydydd parti" oedd y siaradwr – roedd cefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru i'r digwyddiad yn ddiamwys. A yw'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi'r ffordd o fyw mae'r siaradwr yn ei hyrwyddo, ynteu a yw'r Eglwys yn barod i anwybyddu'r safonau moesol uchel arferol sy'n ddisgwyliedig o siaradwyr yn y digwyddiadau mae'n eu hyrwyddo?*

### Ateb – Esgob Llandaf

Hoffwn ddiolch i Josh am ofyn y cwestiwn hwn, oherwydd mae'n rhoi cyfle i mi ddiolch i'r rhai oedd yn gysylltiedig â Pride Caerdydd. Ers sawl blwyddyn, mae'r Eglwys yng Nghymru wedi gweithio gydag eglwysi eraill a chrefyddau eraill i sicrhau 'presenoldeb ffydd' mewn digwyddiadau cenedlaethol yng Nghymru. Mae digwyddiadau rheolaidd yn cynnwys Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, ac mae'r rhain yn gyfleoedd pwysig i ni estyn ein dwylo i bobl Cymru, er mwyn dangos diddordeb a chariad Duw tuag atyn nhw. Rydym yn Eglwys sy'n credu bod ganddi ddyletswydd i weinidogaethu i'r holl gymuned, ac mae'r digwyddiadau yma'n ein galluogi i wneud hynny.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Pride Cymru wedi dod yn ddigwyddiad cenedlaethol o bwys, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi cael cefnogaeth reolaidd gan nifer o aelodau'r Eglwys yng Nghymru. Mae clerigion a lleygion o sawl esgobaeth wedi helpu i drefnu presenoldeb ffydd ochr yn ochr â phartneriaid o gymunedau ffydd eraill, a rhoddodd esgobaeth Llandaf gefnogaeth eleni ar ffurf cyllid a chyhoedduswydd. Rydym yn credu bod hon yn dystiolaeth bwysig yng nghanol ein prifddinas.

Mae modd gweld yr act mae Josh yn cyfeirio ati o ddelweddau a ffilmiau ar y cyfryngau cymdeithasol am yr hyn ydyw mewn gwirionedd: sef gweithgaredd 'adrodd stori' difyr. Roedd gan y rhai oedd yn bresennol docynnau ar gyfer digwyddiad Pride Cymru, a doedd yna ddim byd yn yr act oedd yn anaddas i'r gynulleidfa neu'n arbennig o ddadleuol. Rydw i ar ddeall bod adroddwr y stori'n ystyried ei hun yn Gristion, er gwaetha'r ffaith fod rhai rhannau o'i act wedi eu hanelu at gynulleidfa oedolion.

Awgrymaf nad ein lle ni yw barnu diffuantrwydd ei ffydd.

Gobeithio bydd yr aelodau'n cytuno y dylai'r Eglwys yng Nghymru barhau i ymgysylltu â chymdeithas Cymru yn yr ystyr ehangaf – dyna ein swydd fel Cristnogion. Os yw hyn yn golygu bod angen i ni gymryd risg neu weithredu y tu allan i'n cylch cyfforddus arferol o dro i dro, bydded felly. Fe ddylen ni gamu allan o'n cylch cysur.



# Angen drafftio pellach i'r Bil i ddiwygio'r Tribiwnlys Disgyblu

Oherwydd anghysondeb mewnol yn y Bil i ddiwygio Cyfansoddiad y Tribiwnlys Disgyblu – pennod naw – cafodd y Bil ei gyfeirio'n ôl gan yr aelodau at y Pwyllgor Dethol i'w ddrafftio ymhellach.

Bydd Cam Pwyllgor y Bil yn parhau yn y cyfarfod nesaf.



## Addoli

Gwnaed y trefniadau ar gyfer addoli gan y cydgysylltydd addoli, y Tad John Connell, gyda chymorth aelodau eraill y Corff Llywodraethol.

Bu'r Cymun Bendigaid ar y nos Fawrth yng nghampws y Brifysgol yn dathlu'r Esgob William Morgan a William Salesbury, a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg. Yr Esgob Andy oedd yr offeiriad a'r Esgob Gregory fu'n pregethu.

Cafodd y Weddi Hwyrdd ar y dydd Mercher i ddathlu gŵyl Deiniol Sant ei harwain gan aelodau Esgobaeth Bangor, a'r Esgob Andy fu'n pregethu.

Cafodd y gweddïau a'r Astudiaeth Feiblaidd eu cynnal yn yr awditiwrwm, dan arweiniad Dr Heather Payne, yn null astudiaeth Feiblaidd a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd yn Hong Kong ym mis Mai.

## Casgliad

Bydd arian y casgliad a gymerwyd yn y cyfarfod yn mynd i Gronfa Canmlwyddiant newydd yr Eglwys yng Nghymru (gweler tudalen 3). Cyfanswm y casgliad, cyn hawlio Rhodd Cymorth, oedd £855.20. Cyfanswm y rhoddion 'instagiv' (rhoddion trwy negeseuon testun) ar y diwrnod oedd £175.00.

Mae'r rhif tecstio'n fyw a byddem yn ddiolchgar am unrhyw rodd.

Tecstiwhwch CENTENARY i 70660

## Ein hymwelwyr

### Croesawodd y Corff Llywodraethol westeion o Eglwysi eraill:

Y Parch Sally Thomas  
(Swyddog Eciwmenaid, Eglwys Ddiwygiedig Unedig Cymru).

Yr Eglwys Fethodistaidd  
Y Parch Ddr Stephen Wigley  
(Cadeirydd y Synod, yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru).

Eglwys Lloegr  
Y Parch Charlotte Cook  
(aelod o Gyngor yr Archesgobion, curadur cynorthwyol St Mary Watton a St Matthew a St Mary Trimley).

## Ffarwelio

Diolchodd yr Archesgob i'r Parch Sally Thomas o Cytûn ac Eglwys Ddiwygiedig Unedig Cymru am fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd, gan ei bod ar fin symud i swydd newydd, ac i Rowena Small, Ysgrifenyddes Esgobaeth Llandaf sy'n ymddeol.

Diolchodd o galon i Julian Luke, Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth. Mae'n gadael swydd â thâl gyda'r Eglwys ar ôl 23 blynedd i fynd i weithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

"Dymuniadau gorau i chi, a diolch am bopeth rydych chi wedi ei wneud gyda'ch sgiliau penigamp a'ch gwybodaeth

enfawr am bwy ydym ni a phopeth a wnawn," meddai'r Archesgob John. Yna, cododd y mynychwyr ar eu traed i roi cymeradwyaeth faith i Mr Luke.



Cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol ddydd Mercher 22 a dydd Iau 23 Ebrill 2020 yn Venue Cymru, Llandudno.